

Dymuniadau Gorau

Dymunwn yn dda i Mrs Glenys Jones, Pwllheli a fydd yn cael ei hordeinio a'i sefydlu yn weinidog i eglwys Penlan, Pwllheli ddydd Sadwrn nesaf, Hydref 18. Mae wedi gwasanaethu fwy nag unwaith yn Capel Coch yng ddiweddar, ac anfonwn ein cofion gorau ati a dymuno pob bendith iddi. Mae wedi ei magu yn eglwys Annibynnol Penlan ac wedi bod yn weithgar yno ar hyd y blynyddoedd. Fel y gwelwch isod, bydd yn arwain oedfa yn Capel Coch ddechrau'r mis nesaf eto.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 19: Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch y Plant am 10.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog, ac oedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad rhai o aelodau'r ddwy eglwys a'r Gweinidog am 5.00 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Hydref 12: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Hydref 12: Cymdeithas Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch yng nghwmni Arfon Wyn..

Dydd Sul, Hydref 19: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John Hughes ac yna am 5.00 o'r gloch gan Mr Glyn Owen, Llanwnda. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 19: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 17: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 608 – Dydd Sul, 12 Hydref, 2014

Pa fath newydd?

Nid Caitlin Moran yw'r cyntaf i ddweud nad oes dim ond newyddion drwg ar y teledu bob dydd. Clywais ddweud yr un peth gan bobl eraill dros y blynyddoedd. Rhyfeloedd, trosedd, trais, llofruddiaethau a phob math o drychinebau a dioddefaint sy'n llenwi pob bwletin. Os nad yw'n newydd drwg, nid yw'n newydd o gwbl.

Mewn erthygl hynod o ddiddorol yn un o atodiadau papur newydd y *Times* yr wythnos ddiwethaf roedd Ms Moran yn apelio am newyddion mwy dyrchafol a chalonogol. Cwyno oedd hi'n benodol am y sylw mawr a roddir i chwaraeon ar derfyn pob bwletin. Beth sydd mor arbennig am chwaraeon, meddai. Pam fod chwaraeon yn hawlio'u lle bob tro. Pam mai chwaraeon, yn hytrach na'r celfyddydau er enghraifft, sy'n cael y sylw? Pam na roddir sylw, meddai Ms Moran, i ddoniau creadigol pobl neu i'r datblygiadau diweddaraf mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.

Er bod gen i ddiddordeb mawr mewn chwaraeon, ac er fy mod i wedi derbyn yn ddi-gwestiwn bod hynt a helynt pêl droed, rygbi, criced, tennis, beicio a champau eraill yn rhan o'r bwletinau, mae'n rhaid cydnabod bod dadl Ms Moran yn ddigon teg. Aeth ymlaen i alw am fwletinau newyddion 'gwahanol' sy'n rhoi sylw yn unig i'r pethau creadigol a dyrchafol mewn pob math o feysydd. Galwai am fwy o sylw i'r ymdrechion i wella bywyd ac i annog pobl i wella'u cymdeithas ac i gydfyw yn heddychlon. Awgrymai y

byddai rhoi mwy o sylw i ymdrechion pobl i ddatrys problemau yn golygu y byddai llawer o anawsterau'n cael eu hosgoi hyd yn oed.

Roedd yn erthygl ddifyr iawn. Roedd yn ein hatgoffa o'r angen i beidio â rhoi'r holl sylw i newyddion drwg ond i feddwl o ddifrif beth yn union sy'n werth sôn amdano. A gall Cristnogion yn sicr hawlio bod ganddynt newydd da i'w gyhoeddi. Doedd Caitlin Moran ddim yn sôn am Gristnogaeth, na'r un grefydd arall o ran hynny, ymhlith y pethau dyrchafol. Ond fe wyddom mai newyddion da yw'r Efengyl sy'n haeddu ei chyhoeddi'n eglur i bawb. Newydd da ydyw am gariad Duw tuag atom; y cariad nad ydym ni yn ei haeddu o gwbl. Newydd da am fywyd gwell sy'n cael ei gynnig i bawb, pwy bynnag y bo. Newydd da am un a fu'n fodlon i ddiodeff dros eraill, gan ei gynnig ei hun yn aberth drostynt. Newyddion da am ffordd newydd o fyw, ac am lawenydd a gobaith sy'n cyfoethogi bywydau pobl. Newyddion da am Geidwad sy'n medru dod â phobl at ei gilydd mewn cymod ac yn eu galluogi i garu ac i gynnal ei gilydd.

Mae'n siwr bod Caitlin Moran wedi adnabod un o anghenion dyfnaf pobl, sef yr angen am gysur a gobaith a gwell na'r gwael a'r gwachul sydd mor amlwg yn ein byd. Braint yr Eglwys o hyd yw cynnig yr Arglwydd Iesu Grist i bobl fel yr un sy'n medru diwallu'r anghenion hyn yn llawn. Cyhoeddwn y newydd da bob dydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Hydref 19

10.00 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch yng ngofal aelodau'r ddwy eglwys a'r Gweinidog

Hydref 26

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Tachwedd 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 12

10.30 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 19

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

Hydref 26

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 2

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon. Croeso cynnes iddo atom unwaith eto, a diolch yn fawr iawn am ei wasanaeth.

Bydd fi'n arwain Oedfa Ddiolchgarwch y Plant yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch. A byddaf fi'n arwain oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch yn profi agosrwydd a bendith Duw.

Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch heddiw.

Bydd oedfa Ddiolchgarwch am 10.00 o'r gloch bythefnos i heddiw, ddydd Sul, Hydref 26, dan ofal y Gweinidog.

Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, ddydd Sul nesaf, Hydref 19. Byddai'n braf iawn gweld aelodau'r ddwy eglwys yn ymuno yn yr oedfa hon.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch am 5.00 o'r gloch nos Sul nesaf. Cymerir rhan gan aelodau'r ddwy eglwys.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a diolch eto i Andrew am baratoi ac arwain y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Capel Coch nos Wener, Hydref 24.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Hydref 14 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol Llanberis

Bydd tymor newydd y Gymdeithas yn Llanberis yn dechrau nos Fawrth yr wythnos hon, Hydref 14, am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Edrychwn ymlaen at groesawu Arfon Wyn o Langwyllog, Sir Fôn sy'n wyneb cyfarwydd iawn fel prif ganwr y grŵp poblogaidd Y Moniars.

Cyfarfod Misol

Mae tuedd i ddal i ddefnyddio'r term 'Cyfarfod Misol' am gyfarfodydd yr Henaduriaeth, ond erbyn mae'n deitl anaddas gan mai pedair gwaith y flwyddyn y cynhelir y cyfarfodydd rheolaidd hyn.

Ta waeth am hynny, cynhelir y nesaf yn Capel Coch ddydd Mawrth, Hydref 21. Bydd y cyfarfod arferol am 3.00 o'r gloch, a bydd ail gyfarfod am 6.00 o'r gloch hefyd. Oedfa ordeinio blaenoriaid newydd i'r Henaduriaeth fydd yr oedfa honno, ac estynnir gwahoddiad i unrhyw un i ddod iddi.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter a Chyfarfod Pregethu Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Carmel, Llanllechid am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Hydref 22. Y pregethwr eleni fydd y Parchg John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin. Mae croeso cynnes i bawb.

Gwn Glân a Beibl Budr

Gofynnwyd i ni estyn gwahoddiad i gyfarfod a gynhelir yng nghapel Seilo, Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 23 pan gyflwynir 'Gwn Glân a Beibl Budr'.

Portread Emlyn Richards a Harri Parri o John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Byd Cyntaf yw hwn, ac y mae croeso cynnes i unrhyw un fynd yno i'w weld.

Ni chodir tâl ond derbynir rhoddion at waith Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener nesaf, Hydref 17. Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

Oedfa Fedydd

Yn ystod yr oedfa yn Ebeneser fore Sul diwethaf, Hydref 5, bedyddiwyd Elsa Gwyn Fleming, merch Lyndsey a Tony Fleming, Bwthyn Gwyn, Deiniolen. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu ac edrychwn ymlaen at weld Elsa yn cael ei magu o fewn cymdeithas yr eglwys yn Ebeneser yn fuan iawn.

Cardiau Nadolig

Roedd cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael yn y cyfarfod yn Salem Caernarfon nos Fercher. Maent ar werth am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch. Byddant ar werth yn Oedfa Ddiolchgarwch y plant y Sul nesaf, ac yn y Bore Coffi a'r Gymdeithas a'r Ffair Nadolig. Neu ffoniwch 871150 i archeb pecynnau o gardiau.

Os oes rhywun yn fodlon gofalu am eu gwerthu yn Neiniolen hefyd, rhwch wybod i'r Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Y Goleuad

Fe ddsbarthwyd copiau rhad ac am ddim o'r *Goleuad* yn ddiweddar er mwyn tynnu sylw at y papur. Gwnaed hyn gan y cyhoeddwr y llynedd hefyd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau ei ddarllen os gwelsoch ef. A chofiwch mai bwriad cynnig copi am ddim oedd ennyn awydd mewn rhai i brynu copi bob wythnos. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Gweinidog. Fel y nodwyd yn y rhifyn a rannwyd am ddim, nid papur ar gyfer gweinidogion neu flaenoriaid yn unig yw hwn ond holl aelodau'r eglwys.